

Creaduriaid Clai

Cynllun Dysgu Awyr Agored

Arweinydd y Sesiwn:		Nifer y plant: 15 - 60		Ystod oedran: Sylfaen - CA2	
Lleoliad: E.e. Tiroedd Ysgol, Parc, Coetir, Traeth		Adnoddau: Byddwch angen camera ffug i chwarae'r gêm eliffant Gwybodaeth am rywfaint o brosiectau coedwig law Maint Cymru sy'n diogelu anifeiliaid. Rhagor o wybodaeth https://sizeofwales.org.uk/cy/prosectiau/		Meini Prawf Llwyddiant: Bydd pawb yn gwranddo ar y stori am anifeiliaid. Bydd pawb yn creu creadur clai. Geiriau pwysig: Bywyd gwyllt Coetir Coedwig law	
Pwnc: Creaduriaid Clai		Amcan Dysgu (Sail Resymegol): Datblygu empathi gydag anifeiliaid a deall sut rydym wedi'n cysylltu â'n gilydd. Deall beth allwn ni ei wneud i helpu bywyd gwyllt yn lleol ac yn fyd-eang. Nod y sesiwn a sut mae'n cysylltu â dysgu am Newid yn yr Hinsawdd: Mae mwy o empathi neu gariad at fywyd gwyllt yn gwneud i ni fod eisiau ei ddiogelu.			
Amser: 90 munud					
5 mun	Cylch	Briff ffiniau a diogelwch	Diffiniwch ffiniau'r sesiwn, unrhyw goed meirw, ardaloedd na ellir mynd iddynt.		

<p>5 mun</p>		<p>Gêm boethi</p>	<p>Symudiadau anifeiliaid - ewch o gwmpas y cylch yn gwneud symudiad anifail, mae pawb yn ei gopïo. E.e. llew sy'n llamu, cangarwod sy'n neidio, sloth cysglyd, teigr sy'n rho, tsimpansî sy'n crafu ac ati</p> <p>NEU</p> <p>Eliffant swil (gyda camera ffug) Esboniwch bod eliffantod y coedwigoedd glaw yn swil ac yn hoffi cuddio 'fel hyn ' (dangoswch drwy sefyll i fyny'n syth gyda golwg Dwi ddim yma ar eich wyneb), yn enwedig pan fydd rhywun yn ceisio tynnu eu llun. Gofynnwch iddyn nhw ddangos i chi sut maen nhw'n 'cuddio' fel eliffant. Esboniwch eich bod chi'n mynd i geisio tynnu llun a'ch bod chi eisiau iddyn nhw fod yn eliffantod, ond pan fyddwch chi'n troi o gwmpas i dynnu'r llun, mae pawb yn mynd i 'guddio '. Edrychwch faint allwch chi eu dal yn parhau i chwifio'u trynciau ac yn rho. Gall plant gymryd tro yn bod yn ffotograffydd os oes amser, a gallwch newid yr anifeiliaid hefyd.</p> <p>NEU</p> <p>Castiau anifeiliaid (pa anifeiliaid coedwig law ydych chi'n eu hadnabod? Ychwanegwch y synau a'r ffordd maen nhw'n symud)</p>
<p>15 mun</p>	<p>Cylch</p>	<p>Trafodwch yr Amcan Dysgu a</p>	<p>Adroddwch (neu darllenwch) stori am anifeiliaid rydych chi'n ei wybod,</p>

		<p>rhannwch wybodaeth</p>	<p>gyda llawer o ddisgrifiad - gall y plant ychwanegu'r disgrifiadau e.e. ' Yna cyrhaeddodd teigr... sut oedd y teigr yn edrych? Cynffon hir? Oedd ei holl bawennau'r un lliw? Oedd gan y teigr grafangau miniog? Pa mor fawr oedd y llygaid? ' ac ati</p> <p>NEU</p> <p>ar gyfer grŵp hŷn Cyflwynwch un o brosiectau coedwigoedd glaw presennol Maint Cymru sy'n diogelu anifeiliaid. Gallech ddod â lluniau o'r anifeiliaid i'w trafod, a meddwl pa help sydd ei angen arnyn nhw a pham.</p>
10 mun	Parau, grwpiau bychain	<p>Gweithgaredd i ddatblygu/cyfnert hu wybodaeth, e.e. dod o hyd i eitemau cudd, casglu neu sylwi ar rywbeth yn yr ardal</p>	<p>Gweithgaredd darganfod pryfed</p> <p>NEU</p> <p>Dod o hyd i anifeiliaid tegan neu luniau o anifeiliaid sydd wedi'u cuddio ymlaen llaw (o ddewis, anifeiliaid coetir brodorol a choedwig law)</p>
5 mun	Cylch	<p>Rhannwch y darganfyddiadau yn gryno Cyflwynwch weithgaredd creadigol</p>	<p>Pa fywyd gwyllt wnaethoch chi ddod o hyd iddo? Pwy ddaeth o hyd i bryf lludw? Pwy ddaeth o hyd i lyngyr? Pa fath o gartref maen nhw'n ei hoffi? Beth wnaethoch chi sylwi arnyn nhw... streipiog, cyflym, hir, bach, seimlyd, nifer y coesau, adenydd ac ati.</p> <p>Cyflwyno gweithgaredd crefft Creaduriaid Clai lle mae plant yn</p>

			gwneud eu creadur eu hunain gan ddefnyddio clai a deunyddiau y daethpwyd o hyd iddynt, fel brigau.
25 mun	Grwpiau	Gweithgaredd creadigol	Crëwch eich Creadur Clai - drwy gasglu pob mathau o bethau. Dewch o hyd i le i wneud cartref i'r creadur hefyd os oes gennych amser.
10 mun	Fel 1 neu 2 grŵp	Adborth o weithgaredd Creadigol - cyflwyniad gan blant	Mae plant yn disgrifio eu creaduriaid i'w gilydd. A dweud beth maen nhw'n ei hoffi am greadur rhywun arall. Datblygwch hyn drwy ofyn a oes gan yr anifail unrhyw elynion neu broblemau naturiol neu o waith dyn? E.e. ysglyfaethwyr, potswyr, datgoedwigo, lleihau cynefin, plaladdwyr o gaeau.
5 mun	Fel 1 grŵp	Gêm - i weddu'r hwyliau / grŵp	Gwenyn Suo Mae plant yn 'hedfan' o gwmpas gan bod yn wenynd. Mae arweinydd y gêm yn ailadrodd 'gwenyn suo, gwenyn suo, gwenyn suo' ac yna'n dweud llythyr e.e. 't'. Mae gan y plant ychydig eiliadau i ddod yn rhywbeth gan ddechrau gyda'r llythyr hwynnw a rhewi yn ei lle e.e. 'teigr', 't-rex', 'tarantula'. Mae arweinydd y gêm yn cerdded o gwmpas ac yn ceisio dyfalu beth yw rhai ohonyn nhw. Pan yn barod, dywedwch 'gwenyn suo' eto i gael y plant i symud unwaith eto. NEU

			<p>Gofynnwch i'r plant ddewis cân am anifail i'w chanu gyda'i gilydd. E.e. 'Sŵn yr anifeiliaid', 'mynd ar y ceffyl' neu 'dau dderyn bach' neu gân sydd â thema'r jyngl os ydych chi'n gwybod am un. (Gellir dod o hyd i'r caneuon hyn ar wefan fan CânSing).</p>
10 mun	Cylch	Adolygwch y dysgu, adlewyrchwch ar brofiad	<p>Beth allwn ni ei wneud i ofalu am fywyd gwyllt? Dewiswch rywfaent o atebion penodol yn seiliedig ar y pethau y gwnaethon nhw eu darganfod neu eu gwneud. Pryfed? Llyngyr? draenogod? Beth am anifeiliaid sy'n byw yn y goedwig law? Ystyriwch sut mae Maint Cymru yn gofalu am anifeiliaid sy'n byw yn y goedwig law. Gallai'r sesiwn awyr agored hon arwain at sesiwn yn yr ystafell ddosbarth yn edrych ar rai o'r problemau sy'n wynebu anifeiliaid sy'n byw yn y goedwig law ac ar beth mae Maint Cymru ac elusennau eraill yn ei wneud i helpu.</p>